| | |
|---|---|
| | **SWYDDOGOL** |

| **GWYBODAETH POLISI** | |
|---|---|
| Teitl | Polisi Atal Colli Data |
| Fersiwn | V2.0 |

| **PERCHNOGAETH POLISI** | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Cyfarwyddwr Galluogrwydd ac Adnoddau |
| Perchennog Polisi | Pennaeth Rheoli Gwybodaeth |
| Awdur Polisi | Swyddog Diogelwch Gwybodaeth |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at:**Uned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2ilLawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT**neu e-bostiwch:FOI@btp.pnn.police.uk

## Pwrpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn mynd i'r afael â'r risg o ollwng bwriadol ac anfwriadol asedau gwybodaeth plismona cenedlaethol ac Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP). Nid yw'r polisi hwn yn mynd i'r afael â risgiau o gyfarpar sy'n methu, parhad busnes neu adfer ar ôl trychineb; mae'r rhain yn dod o dan bolisïau parhad busnes neu adfer ar ôl trychineb.

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i staff yr Adran Dechnoleg sydd â'r dasg o ddatblygu, cynnal a gweithredu prosesau a gweithdrefnau TG.

Mae'r rhanddeiliaid ar gyfer y Polisi Atal Colli Data hwn yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Galluogrwydd ac Adnoddau
- Pennaeth Technoleg
- Rheolwr Diogelwch Gwybodaeth
- Penaethiaid Adrannol a Chomanderiaid Ardal
- Rheolwyr llinell
- Unrhyw 3ydd parti arall y mae gan BTP gytundeb trin data cyfredol ar waith cyn i'r rhannu data ddigwydd.

## Egwyddorion

Mae polisi BTP ynghylch atal colli data fel yr amlinellir isod.

- Bydd dogfennau BTP sy'n cynnwys gwybodaeth ddirgel yn cael eu nodi â dosbarthiad diogelwch wedi'i wreiddio i hwyluso mesurau technegol o fewn rheolaethau ffiniau i atal colli data a nodi ei ofynion dosbarthu a thrin i ddefnyddwyr gwybodaeth.
- Bydd y rheolaethau ffiniau dilynol yn gweithredu mesurau technegol i atal colli data:
    - Hidlwyr atodiadau e-bost (yn mynd allan)
    - Traffig rhyngrwyd/gwe (yn mynd allan)

- Diogelir data sy'n gorffwys ar gyfrifiaduron cludadwy rhag dwyn/colli trwy ddefnyddio amgryptio wedi'i sicrhau.
- Diogelir data sy'n gorffwys ar ddyfeisiau storio data cludadwy rhag dwyn/colli trwy ddefnyddio amgryptio wedi'i sicrhau.
- Bydd rhaid i reolaethau ffiniau fod yn ymwybodol o'r lefelau dosbarthu sydd/nad ydynt yn briodol ar gyfer pob llwybr allan. Er enghraifft, gellir caniatáu rhai dosbarthiadau i'w trosglwyddo dros systemau e-bost diogel, neu i'w lanlwytho i wefannau diogel o fewn y rhwydwaith PSN-P.
- Bydd rheolaethau ffiniau'n rhwystro cynnwys sy'n cuddio dosbarthiadau diogelwch electronig trwy amgryptio (e.e. ffeiliau wedi'u sipio).

## Monitro ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 3 blynedd ac mewn ymateb i unrhyw newidiadau sylweddol mewn deddfwriaeth neu bwrpas busnes.

## Polisïau/Dogfennau Cysylltiedig

Canllawiau Atal Colli Data

Strategaeth Rheoli Risg Gwybodaeth BTP

Rhwydwaith Heddlu Diogelwch HMG

Cod Cysylltu PSN Swyddfa'r Cabinet

Strategaeth Dyfais Defnyddiwr Terfynol Swyddfa'r Cabinet/CESG: Fframwaith a Rheolaeth Diogelwch

Deddf Diogelu Data

Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron

ISO/IEC 27001, Systemau Rheoli Diogelwch Gwybodaeth

Canllaw Arferion Da CESG Rhif 8 - Amddiffyn Cysylltiadau Allanol â'r Rhyngrwyd

Canllaw Arferion Da CESG Rhif 13 - Monitro Amddiffynnol ar gyfer Systemau TGCh HMG

Canllaw Arferion Da CESG Rhif 30 - Sicrwydd Systemau a Gwasanaethau TGCh